**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Cydraddoldebau a Chenedlaethau'r Dyfodol

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 25 Chwefror 2020 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd L S Gibbard (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | D W Helliwell | P K Jones |
| M Sherwood | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Sally-Ann Evans | Uwch-gyfreithiwr |
| Kate Jones | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Rachel Lewis | Rheolwr y Prosiect |
| Antony Moss | Rheolwr Ynni |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): P B Smith, L J Tyler-Lloyd ac L V Walton

---

**26 Derbyn Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol: -

Y Cynghorydd M Sherwood - personol - Cofnod Rhif 28 - Gweithiwr gyda chwmni Gower Power.

**27 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Cydraddoldeb a Chenedlaethau'r Dyfodol a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2019 fel cofnod cywir.

**28 Y Diweddaraf am y Strategaeth Ynni.**

Darparodd y Cyfarwyddwr Lleoedd adroddiad ar 'Y Diweddaraf am y Strategaeth Ynni'. Amlygodd y canlynol yn benodol: -

- Diweddaru'r Strategaeth Ynni gyfredol
- Blaenoriaethau Allweddol - Goleuadau stryd LED, cynlluniau ynni adnewyddadwy, cerbydlu gwyrdd

- Adeiladu tai ynni effeithlon i gyflawni 'Safon Abertawe' ym Mharc yr Helyg, Gellifedw a Ffordd Colliers 2, Penplas
- Rhaglen carbon isel *Refit*
- Prosiectau ffermydd solar
- Adrodd am allyriadau - cwmpas a safoni

Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau'n canolbwyntio ar y canlynol: -

- Lleoliadau posib ar gyfer adeiladu ffermydd solar - cam dichonoldeb
- Ansawdd aer
- Plannu coed i helpu â chyfyngiad carbon
- Cynnwys Egwyddor Corfforaethol newydd, cynnal a gwella adnoddau naturiol a bioamrywiaeth Abertawe yn y strategaeth sy'n cael ei diweddaru
- Cynlluniau sector preifat - rheoli a dylanwadu
- Polisi'r Cynllun Datblygu Lleol
- Safon BREEAM ar gyfer ysgolion newydd
- Clwb Ceir
- Hyfforddiant ar allyriadau carbon - prosiectau llythrennedd carbon
- Ynni ardal
- Partneriaeth gyda Fforwm yr Amgylchedd Abertawe i ystyried ymgysylltu
- Trafnidiaeth gynaliadwy

**Penderfynwyd** y dylid cyflwyno'r Strategaeth Ynni ddiwygiedig i'r pwyllgor ei hystyried ym mis Ebrill 2020.

**29 Adborth o'r Gweithdy - Cynllun Cydraddoldeb Strategol.**

Darparodd y Cadeirydd drosolwg o'r gweithdy a gynhaliwyd ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Roedd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft yn destun ymgynghoriad tan 3 Mawrth 2020.

Cafwyd ymateb cadarnhaol gan y cyhoedd i'r ymgynghoriad hyd yn hyn, ac roedd amser o hyd i bobl gyflwyno'u sylwadau.

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

**30 Diweddariad am y Polisi Datblygu Cynaliadwy.**

Darparodd y Cadeirydd ddiweddariad am y Polisi Datblygu Cynaliadwy.

Bwriedid cyflwyno'r polisi drafft i'r pwyllgor ym mis Ebrill i'w ystyried.

**Penderfynwyd** cofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf

**31 Cynllun Gwaith 2019/20.**

Cyflwynodd y Cadeirydd y cynllun gwaith ar gyfer 2019/20.

Nodwyd bod yr eitemau canlynol wedi'u trefnu ar gyfer y cyfarfod nesaf: -

- Y Diweddaraf am Gydgynhyrchu
- Y diweddaraf am y Cynllun Gweithredu gan Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol

Trefnwyd ymweliad safle ar gyfer 17 Mawrth 2020 i ymweld ag ardal Craig-cefn-parc a Pharc yr Helyg.

Ychwanegu'r diweddaraf am y Strategaeth Ynni a'r diweddaraf am y Polisi Datblygu Cynaliadwy at y cynllun gwaith ar gyfer mis Ebrill.

**Penderfynwyd** nodi'r diweddariadau i'r Cynllun Gwaith.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.05 pm

**Cadeirydd**